

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH
I BEN AR 31 MAWRTH 2021



YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED



ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf
Corner House, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir
Gaerfyrddin SA19 6AE
Ffon: Ymholiadau Cyffredinol 01558 823121
Ebst: info@dyfedarchaeology.org.uk
Gwefan: www.archaeolegdyfed.org.uk

Dyfed Archaeological Trust Limited
Corner House, 6 Carmarthen Street, Llandeilo,
Carmarthenshire SA19 6AE
Tel: General Enquiries 01558 823121
Email: info@dyfedarchaeology.org.uk
Website: www.dyfedarchaeology.org.uk

Cwmni cyfyngedig (1198990) ynghyd ag elusen gofrestredig (504616) yw'r Ymddiriedolaeth. The Trust is both a Limited Company (No. 1198990) and a Registered Charity (No. 504616)

CADEIRYDD/CHAIR JUDITH WAINWRIGHT MA MSC FIC FRSA

CYFARWYDDWR DIRECTOR: K MURPHY BA MCIFA

CYNNWYS

Ffigurau Pennawd	4
Amcan yr Ymddiriedolaeth	5
Datganiad Cenhadaeth	5
Hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol	5
Deall yr amgylchedd hanesyddol	5
Amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol	5
Budd cyhoeddus	5
Strwythur, llywodraethu a rheoli	5
Adolygiad ariannol	13
Datganiad datgelu gwybodaeth i Archwilwyr	17

Atodiad A Rhestr o Aelodau'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021


Atodiad B Rhestr o Staff yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021

Ffigurau Pennawd



22

cyfrannodd pobl yn weithredol at ein gweithgareddau



105,672

Cofnodion Agylchedd Hanesyddol byw ar gael i'r cyhoedd



506

oriau wedi'u gwirfoddoli i'n gweithgareddau



7

nifer y teithiau cerdded, sgysrsiau, digwyddiadau ac arddangosfeydd a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth



102

pobl ifanc yn ymwneud â'r Treftadaeth Ddisylw? prosiect



32

cyflawnodd pobl ifanc Wobr y Celfyddydau ar lefel 'Discover'



2,500,000

ymweliadau â'n gwefan



3988

ceisiadau cynllunio wedi'u prosesu a'u hasesu



4506

cofnodion newydd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol



160

amodau archaeolegol wedi eu gosod ar brosiectau datblygu



84

adroddiadau archeolegol wedi'u cynhyrchu



76

prosiectau archeolegol wedi eu ymgymeryd â hwy

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 20221

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a'u cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

Amcan yr Ymddiriedolaeth

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn elusen addysgol ac yn gwmni cyfyngedig preifat. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1975 fel rhan o rwydwaith o bedwar sefydliad archaeolegol annibynnol sy'n ymwneud â Chymru gyfan. Yr amcan y sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ar ei gyfer yw hyrwyddo addysg y cyhoedd mewn archaeoleg.

Datganiad Cenhadaeth

Gwella dealltwriaeth, cadwraeth a gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru.

Hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol

Mae holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Fodd bynnag, roedd rhai prosiectau a gweithgareddau wedi'u hanelu'n benodol at godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd hanesyddol fel un o asedau mwyaf Cymru.

Deall yr amgylchedd hanesyddol

Mae holl waith yr Ymddiriedolaeth yn gymorth o ran hyrwyddo dealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, cafodd rhywfaint o waith ei gynllunio'n benodol er mwyn yr amcan hwn, gan gynnwys cloddfeydd, arolygon, asesiadau, golygon gwyllo a phrosiectau cofnodi adeiladau. Disgrifir detholiad yn fyr isod.

Amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol

Galluogodd cymorth grant gan Cadw yr Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth rheoli treftadaeth cynhwysfawr ar draws y rhanbarth cyfan, gan gynnwys: ymateb i nifer fawr o ymgynghoriadau ar faterion amrywiol sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol; darparu cyngor i sefydliadau ac unigolion; cynrychioli'r Ymddiriedolaeth ar bwyllgorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol; a chyfrannu at weithgareddau nifer o grwpiau allanol. Mae holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn helpu i lywio'r cyngor hwn.

Budd cyhoeddus

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gallu cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn Adran 4 Deddf Elusennau 2006 i roi sylw dyledus i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau. Mae gweithgarwch sylweddol a gynhaliwyd gennym yn ystod y flwyddyn sy'n dangos budd cyhoeddus wedi'u nodi yn y tudalennau uchod.

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae'r Ymddiriedolaeth yn un o'r pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol a sefydlwyd yn wreiddiol yn y 1970au i ymwneud â Chymru gyfan.



Dogfen lywodraethol

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethol, gweithred ymddiriedaeth, ac mae'n gwmni cyfyngedig, cyfyngedig trwy warant, fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Cyfeirnod a manylion gweinyddol

Rhif Cwmni Cofrestredig: **1198990** (Cymru a Lloegr)

Rif Elusen Gofrestredig: **504616**

Swyddogion a'r Swyddfa Gofrestredig

Yn ystod y flwyddyn roedd Mr K Murphy yn Ysgrifennydd y Cwmni ac yn Brif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth.

Mae Swyddfa Gofrestredig yr Ymddiriedolaeth yn Corner House, 6 Heol Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6AE. Banc y National Westminster plc, 59 Heol y Brenin, Caerfyrddin, yw bancwyr yr Ymddiriedolaeth. Mae Red Kite Law LLP, 14-15 Heol Spilman, Caerfyrddin, yn gwasanaethu fel ymgynghorwyr cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth. Clay Shaw Butler, 24 Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AL, yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr elusen at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, sy'n gymwys i elusennau wrth baratoi eu cyfrifol yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol 1 Ionawr 2015).

Mae'r tabl isod yn cynnwys ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn. Mae'r blychau du yn dynodi presenoldeb yn y cyfarfodydd Pwyllgor Rheoli ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol:

	29.04.20	18.05.20	30.06.20	22.07.20	21.10.20	20.01.21	CCB 23.09.20
Astrid Caseldine BSc PGCE							
Nigel Clubb MA MCIfA FSA							
Jeffrey L Davies BA PhD							
Chris Delaney BSc FMA							
Heather James BA FSA							
Hywel R R John MA FCA							
Emma Plunkett Dillon BA PhD							
Jennifer Protheroe- Jones BSc (ymddiswyddodd 17.03. 2021)							
Judith Wainwright MA MSc FIC FRSA							
Nic Wheeler OBE BA DipTD MRTPI(Ret'd)							



Yng nghyfarfod blynyddol 20 Medi 2020, cynigiodd yr ymddiriedolwyr sy'n ymddeol, H James, A Caseldine and N Clubb, eu hunain i gael eu hail-ethol ac, o dan Erthygl 41 o Erthyglau'r Ymddiriedolaeth, cawsant eu hail-ethol. Etholwyd E Plunkett Dillon.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Rheoli sy'n bwyllgor dirprwyedig o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr presennol yn adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd ac yn cynnig swyddi fel Ymddiriedolwyr i Aelodau presennol fel y maent yn gweld yn briodol. Darperir gwybodaeth i Ymddiriedolwyr newydd, sy'n rhoi manylion am strwythur, amcanion a pholisïau'r Ymddiriedolaeth, ynghyd â'r llenyddiaeth ar gyfrifoldebau bod yn ymddiriedolwyr yr elusen. Mae pob Ymddiriedolwr newydd yn cael cyfarfod sefydlu gyda'r Prif Weithredwr, sy'n cynnwys adolygiad manwl o strwythur, polisi, trefniadaeth, staffio a rhaglen waith y cwmni/elusen. Sicrhwr bod Ymddiriedolwyr newydd yn ymwybodol o'r ystod eang o arweiniad sydd ar gael o'r Comisiwn Elusennau mewn fformatau copi caled a digidol.

Datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed Cyf at ddibenion y gyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn unol â chyfraith cwmni, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa bresennol y cwmni elusennol ac o'r adnoddau a dderbyniwyd a'r defnydd a wnaed o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant, ar gyfer y cwmni elusennol am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni elusennol ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmni 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

I'r graddau y gŵyr yr Ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohono
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi gwneud i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli

Mae'r Pwyllgor Rheoli'n cynnwys Bwrdd yr Ymddiriedolwr a phedwar aelod uwch o'r staff: Prif Swyddog Gweithredol, Pennaeth Gwasanaethau Archaeolegol Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Rheolwr Swyddfa ac un o dri uwch aelodau staff Rheoli Treftadaeth yn gylchredol.



Cyfarfu'r Pwyllgor chwech gwaith yn ystod y flwyddyn. Cyn cyfarfodydd, ac i gynorthwyo Ymddiriedolwyr o ran cyflawni eu cyfrifoldebau, darperir setiau o bapurau i Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys: cyfrifon chwarterol; cofrestr risg wedi'i diweddarau; adolygiad o gynnydd ar gynllun strategol yr Ymddiriedolaeth; adroddiad ar unrhyw faterion iechyd a diogelwch, rhaglen dreigl o adolygu polisiâu a gweithdrefnau; adroddiad ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y chwarter blaenorol a phapurau perthnasol eraill. Yn ystod 2020-21, cafodd y pwyllgor rheoli wybodaeth lawn a chyson am yr effaith yr oedd Covid-19 yn ei chael ar yr Ymddiriedolaeth, a'r mesurau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r effaith.

Sefydlwyd is-grŵp Cynllun Pensiwn Sefydliadau Archaeolegol (AOPS) o'r pwyllgor rheoli yn ystod y flwyddyn i adrodd i'r Pwyllgor Rheoli ar faterion AOPS. Cyfarfu bedair gwaith.

Aelodaeth yr Ymddiriedolaeth

Mae pob aelod o'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Ymddiriedolwyr, yn cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd heb dâl yn wirfoddol i amcanion elusennol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw graddau'r chyfraniad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ond mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n fawr ar y gwasanaethau a'r arbenigedd a ddarperir gan ei haelodau sy'n gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr neu gan aelodau'r Pwyllgor Rheoli, ynghyd â chyngor gwerthfawr a chyfraniadau arbenigol i brosiectau unigol a ddarperir gan aelodau unigol eraill.

Mae Aelodaeth o'r Ymddiriedolaeth drwy wahoddiad yn unig gan yr Ymddiriedolwyr. Mae Pwyllgor Chwilio am Aelodaeth wedi parhau i chwilio am aelodau newydd posibl ac i wneud argymhellion yn ymwneud ag aelodaeth i'r Ymddiriedolwyr. Ni wnaeth y Pwyllgor Chwilio gyfarfod yn y flwyddyn 2020-21. Rhestrir yr aelodau yn Atodiad A.

Adolygiad o risgiau

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn adolygu cofrestr risgiau'r Ymddiriedolaeth ym mhob cyfarfod chwarterol. Mae'r broses hon yn cynnwys dadansoddiad, a diweddiariad os oes angen, o'r systemau a gafodd eu sefydlu er mwyn lliniaru risgiau a nodwyd.

Y cynllun Pensiwnau Sefydliadau Archeolegol yw'r risg mwyaf a enwir. Mae hwn yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr sy'n gweithredu er lles gweithwyr pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru. Caiff asedau'r cynllun eu buddsoddi a'u rheoli'n annibynnol ar gyllid yr Ymddiriedolaeth. Gwneir gwerthusiadau bob tair blynedd gan actwari annibynnol. Gwnaed y gwerthusiad mwyaf diweddar, y mae gwybodaeth ar gael amdano, ar 6 Ebrill 2018. Ar yr adeg honno, roedd rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn yn fwy na'i asedau; gellir cael manylion llawn am hyn yn nodyn 21, a cheir mwy o wybodaeth yn yr Adolygiad Ariannol isod. Mae cynllun adfer diffygion, sydd wedi ei gytuno â'r Rheoleiddiwr Pensiwn, yn ei le er mwyn gwaredu'r diffyg.

Gwrthdaro Buddiannau

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Ymddiriedolwyr. Mae pob ymddiriedolwr yn cwblhau cofrestr o fuddiannau yn flynyddol ac yn datgan unrhyw newidiadau ar ddechrau pob cyfarfod o'r pwyllgor rheol. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Gwrthdaro Buddiannau Rheoli-Contractio Treftadaeth, ac Polisi Gwrthdaro Buddiannau Aelodau Staff, sy'n cynnwys ffurflen datgan buddiannau.

Adrodd Digwyddiadau Difrifol

Mae'n ddyletswydd i'r Ymddiriedolwyr ddatgan unrhyw ddigwyddiadau difrifol a allai fod yn fygythiad i fuddiolwyr, gwasanaethau, asedau neu enw da'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan na ellid adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau o'r fath yn ystod 2020-21



Iechyd a Diogelwch

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisi Iechyd a Diogelwch a dogfennaeth gefnogol. Mae Iechyd a Diogelwch yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli.

Staff

Y nifer cyfartalog o gyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd 14. Ceir rhestr lawn o staff fel yr oedd ar 31 Mawrth 2021 yn Atodiad B.

Mae cyflog rheolwyr wedi'i seilio ar raddfeydd cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol, a graddau a bandiau cyflog sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Cofrestrriad Proffesiynol ac Arall

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau yn Sefydliad Cofrestredig o Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ac yn aelod o FAME (Y Ffederasiwn Rheolwyr a Chyfflogwyr Archaeolegol).

Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Dyfed

Yn 2008, sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Dyfed gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed fel yr unig Ymddiriedolwr. Pwrpas yr Ymddiriedolaeth hon yw diogelu'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol (CAH) at ddefnydd y cyhoedd pe bai Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (y rhiant-Ymddiriedolaeth) yn mynd yn fethdalwr. Cynhaliwyd chwech chyfarfod o'r Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ac ar 20 Ionawr 2021 llofnodwyd Gweithred Drosglwyddo, a drosglwyddai'r cofnodion a luniwyd yn ystod y flwyddyn gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i Ymddiriedolaeth Elusennol CAH Dyfed.

Adolygiad ariannol

Fel sefydliad sector gwirfoddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddibynnu'n fawr ar gymorth grant gan Cadw. Roedd y cymorth grant hwn yn cyfrif am 42% o gyfanswm adnoddau newydd yr Ymddiriedolaeth (2019-20: 46%). Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth barhaus hon.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021, aeth 5% o gyfanswm yr adnoddau a wariwyd ar reoli a gweinyddu'r elusen (2019-20: 5%), aeth swm bychan ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu, a'r gweddill ar wariant elusennol uniongyrchol ar y gweithgareddau a ddisgrifir uchod.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth warged o £122,201 cyn unrhyw addasiadau ar gyfer y cynllun pensiwn buddion diffiniedig. Yn dilyn yr addasiadau pensiwn, a eglurir ymhellach yn nodyn 22, cynhyrchodd yr Ymddiriedolaeth incwm net o £73,201.

Fel ar 31 Mawrth 2021 mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiffyg ar gronfeydd anghyfyngedig o £393,936, a chrëwyd hyn gan y rhwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig o £1,009,000; heb y rhwymedigaeth hon, byddai gan yr Ymddiriedolaeth gronfeydd anghyfyngedig o £615,064

Mae'r datganiadau ariannol eleni yn ymgorffori newid sylfaenol yn y driniaeth gyfrifyddu o ddiffyg y Cynllun Pensiwn Sefydliadau Archaeolegol (AOPS). Mae'r Ymddiriedolaeth, hyd yma, wedi cyfrif am y diffyg gan ddefnyddio'r esemptiad sydd ar gael i gynlluniau aml-gyflogwr. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn bodloni'r meini prawf i ddefnyddio'r esemptiad hwn mwyach, ac felly am y tro cyntaf, mae'r ffigurau a ddangosir yn y Datganiadau o Weithgareddau Ariannol (SoFA) ac ar y Fantolen wedi'u cyfrifo o dan Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102). Fe welwch yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar y SoFA wrth greu colled sylweddol yn y flwyddyn, a'r effaith negyddol y mae hyn wedi'i chael ar y fantolen.

Ni fyddai'r newid hwn wedi cael gymaint o effaith ar y ffigurau, yn seiliedig ar brisiad Tair



Blynedd AOPS 2018. Fodd bynnag, ers y prisiad diwethaf, mae'r Gyfraith Pensiynau ac arweiniad gan y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi mynd yn llawer llymach, ac mae'r cynllun yn aeddfedu. Bellach mae'r Rheoleiddiwr yn mynnu bod rhagdybiaethau ariannol mwy ceidwadol yn cael eu defnyddio, ac mae'r gyfradd ddisgownt wedi'i gosod gan ddefnyddio dull Gilts plws. Mae hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar gyfrifo'r diffyg yn 2021 y gellir ei briodoli i'r Ymddiriedolaeth, gan ei gynyddu o £196,158 y llynedd, i amcangyfrif o £1.1m yn y Datganiadau Ariannol cyfredol.

Mae'r Ymddiriedolwyr AOPS wedi comisiynu Pricewaterhouse Coopers i ymgymryd ag astudiaeth fforddiadwyedd, i edrych ar y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd ym Mhrisiad Tair Blynedd drafft 2021, ar ffyrdd y gellid cryfhau'r Cyfamod Cyflogwr ac ar osod cynllun adfer. Fe wnaeth y cynllun gau i groniadau yn 2018.

Rhagwelir y bydd cynllun adfer yn cael ei gytuno gyda'r Rheoleiddiwr yn 2022, gan osod lefel y taliadau adfer a'r cyfnod ar gyfer talu'r diffyg. Nid oes rheswm i greu felly na all yr Ymddiriedolaeth barhau i dalu ei dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus, a pharhau i weithredu fel busnes hyfyw.

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi cronfeydd wrth gefn sydd ei angen er mwyn cynnal gwasanaethau yn achos problemau dros dro mewn unrhyw un o'r prif feysydd incwm neu wariant, neu os bydd yr Ymddiriedolaeth yn wynebu problem ariannol annisgwyl. Y bwriad yw y byddai'r gronfa wrth gefn yn cwmpasu unrhyw ddiffyg ariannol yn y tymor byr hyd nes y gellid gweithredu'n briodol i adfer y sefyllfa. Byddai'r cronfeydd yn cael eu defnyddio yn yr amgylchiadau canlynol yn unig: costau dileu swyddi ar ôl gwagio pob ffynhonnell arall; costau gweithredu hanfodol ar ôl gwagio pob ffynhonnell arall; ac wrth fynd i unrhyw orddrafft gorfodol.

Sefydlwyd y gronfa wrth gefn yn 2000-2001 gyda swm cychwynnol o £15,000. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu trosglwyddo 10% o unrhyw ormodedd gweithredol, neu £5,000, pa un bynnag oedd yr isaf, i'r gronfa wrth gefn yn flynyddol. Mae'r gronfa'n dal £124,760 ar hyn o bryd.

Rhagolygon ar gyfer 2021-22

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi negodi grant gan Cadw o £301,881 ar gyfer 2021-22, o gymharu â £303,313 ar gyfer 2020-21. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020-21, roedd tua £169,342 ffynonellau eraill eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer 2020-21 (£106,456 ar gyfer y flwyddyn 2020-21).

Covid-19

Yn sgil y pandemig Coronafeirws a chyfyngiadau symud y Llywodraeth, fe wnaeth gwaith masnachol ddirywio'n sydyn tuag at ddiwedd mis Mawrth 2020. Cafodd dau aelod o dîm maes yr Ymddiriedolaeth a dau o lanhawyr swyddfa eu rhoi ar gynllun cadw swyddi'r Llywodraeth (ffyrlo) ar ddiwedd mis Mawrth, ac ym mis Ebrill cafodd tri aelod arall o'r tîm eu rhoi ar ffyrlo. Ar ddiwedd mis Mai, cynyddodd y gwaith masnachol a thynnwyd holl aelodau'r tîm maes oddi ar y cynllun ffyrlo.

Parhaodd y rhan fwyaf o aelodau staff yr Ymddiriedolaeth i weithio gartref trwy gydol y flwyddyn, os nad oeddent yn gysylltiedig â gwaith maes. Nid oedd gwasanaeth glanhau swyddfa, ac felly cadwyd y glanhawyr swyddfa ar y cynllun ffyrlo. Tuag at ddiwedd mis Mawrth 2021, cafodd un aelod o'r tîm maes ei roi ar ffyrlo oherwydd dirywiad mewn gwaith masnachol.

Bu effaith fwyaf Covid-19 o bell ffordd ar waith ymgysylltu a chyfranogi'r Ymddiriedolaeth yn y



gymuned. Cafodd y nifer o gloddiadau a oedd wedi'u cynllunio gyda chyfranogiad y gymuned a phrosiectau gwaith maes eraill naill ai eu canslo, neu eu gohirio hyd nes 2021-22, er y bu modd cynnal cloddiad cymunedol ar raddfa lai ym mis Medi 2020. Cafodd nifer o'n prosiectau gwaith maes cymunedol a oedd wedi'u cynllunio gymorth grant gan Cadw, a gyda'u cytundeb nhw, roedd modd i ni ailddyrannu cyllid o'r rhain i brosiectau yn y swyddfa. Cafodd holl weithgareddau ymgysylltu arferol yr Ymddiriedolaeth-anerchiadau, teithiau cerdded, ysgolion dydd, arddangosfeydd-eu canslo neu eu symud ar-lein, a dargyfeiriwyd adnoddau at ymgysylltiad digidol, gan gynnwys ail-ddylunio gwefan yr Ymddiriedolaeth.

Datganiad datgelu gwybodaeth i Archwilwyr

Cyn belled ag y bo'r Ymddiriedolwyr yn gwybod, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni'n gwybod amdani, ac mae pob Ymddiriedolwr unigol wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi eu cymryd fel Ymddiriedolwyr er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr y cwmni'n gwybod am y wybodaeth honno.

Archwilwyr

Caiff yr archwilwyr, Clay Shaw Butler Limited, eu cynnig ar gyfer eu hail-benodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Cymeradwywyd trwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr

ar 13.12.2021 a llofnodwyd ar ei ran gan:

..... Ymddiriedolwr

Atodiad A Rhestr o Aelodau'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021

Yn nhrefn eu penodi

Dr J L Davies BA PhD
The Right Reverend John Wyn Evans BA BD FSA
FRHistS
Mr C J Delaney BSc FMA
Mr N J Wheeler OBE BA DipTP MRTPI (Ret'd)
The Very Revd. A Cunnane BA VF
Prof M G Bell BSc FSA
Mr C R Musson MBE B Arch FSA MIFA
Mrs H B Burnham MA
Prof B C Burnham MA PhD
Mr T Lloyd OBE MA DL FSA
Mr N Ainger
Mr D G Benson MA
Mrs H James BA FSA
Mr R J Brewer BA FSA
Dr T Kirk BA
Ms E Plunket Dillon BA PhD FSA
Prof H Mytum MA DPhil FSA
Mr M Thomas
Ms A Caseldine BSc PGCE
Mr M C Norman MBE
Dr C S Briggs FSA FGS MCIfA
Mr R J C Thomas
Ms J Protheroe-Jones BSc
Dr R Anthony
Mrs A Eastham
Dr P Claughton
Dr E Wilberforce
Mrs A Dorsett BA AMA
Dr S Hancock FSA FRHistS FRSA AMA JP
Prof N Nayling
Dr A D Coombe
Dr A E U David FSA
Ms M C Houseman MA
Dr R Turvey BA PhD PGCE FSA FRHists FCIEA
Ms C Canham
Mr S T Cliff
Ms C Gerrard
Dr Elizabeth A. Walker Dip LCM BA; MPhil PhD
FSA AMA
Mr N D Clubb MA MCIfA FSA
Dr S Rees CBE FSA
Ms J Trier
Dr P Wakelin BA MSocSc PhD FSA

Mrs J Walter
Mr R Walter
Mr E Bowen
Ms R Carmichael
Dr R Comeau
Mr G Lloyd
Mr R Pickford
Ms V S H Roberts BA
Ms L Austin
Ms J Wainwright MA MSc FIMC FRSA
Mr H R R John MA FCA
Dr T Driver FSA
Ms D Gibby
Mr A Gwilt
Ms M Mason BA MA AMA
Mr H Pritchard
Mr P Rowland FRGS
Ms A Thorne MA MCIFA
Mr N Ludlow FSA
Mrs G Hayward MA
Dr P Webster
Mr R Hopkins
Mr D J Rees BA MEd PGCE FSA
Mr M Parry
Mr T Ll. Jones
Mr T Painter
Mr B Lake MP
Ms J Wilks
Ms M Shiner
Mr H Boggis-Rolfe
Mr R Keen MA
Dr K Hemer

Atodiad B Rhestr o Staff yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2021

GWEINYDDIAETH

Prif Weithredwr	K Murphy BA MCIfA
Rheolwr Swyddog	J Holland BA
Cynorthwydd Gweinyddol	E Jones MSc

GWASANAETHAU ARCHAEOLEGOL YAD

Pennaeth Gwasanaethau Archeolegol	F Murphy BSc
Rheolwr Prosiect	P Poucher BA (Hons) MCIfA
Archeolegydd	H Wilson
Archeolegydd	C Enright MSc PCIfA
Archeolegydd	A Shobbrook BA ACIfA
Archeolegydd	L Jenkins BSc MPhil

RHEOLI TREFTADAETH

Rheolwr Prosiect	A Pyper BA (Hons) MA
Swyddog Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol	F Sage BA
Uwch Archeolegydd Cynllunio	M Ings BA (Hons) MCIfA
Archeolegydd Cynllunio	Z Bevans Rice BA MA
Archeolegydd Cymunedol	S Rees BA PGCE
Cynorthwydd Rheoli Treftadaeth	J Smith BA (Hons) MSc



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

The Corner House
6 Stryd Caerfyrddin
Llandeilo

Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE

01558 823121

info@dyfedarchaeology.org.uk

www.archaeolegdyfed.org.uk